1. **Allwch chi gadarnhau os yw'r pitsh hon yn ymwneud â chynnwys Cymreig yn unig? Hoffwn gyfleu cynnwys o natur rhyngwladol.**
   *Gall gynnwys themâu 'rhyngwladol' – ond bydd angen cysylltiad Cymraeg/Cymreig i'r stori.*

2. **Os arweiniad i'w gael o ran pynciau na hoffech eu gweld h.y pynciau sydd wedi'i comisiynu eisoes ar gyfer 2026/7**
   *Mae rhestr o gomisiynau sydd wedi eu cytundebu ar gael yma:*
   *https://media.cms.v3.s4c.cymru/media/media_assets/9781e027-2491-44db-913d-329f6746af7b.pdf*

3. **Oes arian ychwanegol ar gael ar gyfer y deunydd atodol ychwanegol hwn – oc os oes – oes syniad o bris?**
   *Nid oes cyllideb ar wahan ar gyfer deunydd digidol a chyfryngau cymdeithasol.*

4. **Tu hwnt i becyn y tendr hwn sawl awr / faint o arian sydd ar gael ar gyfer 2026/7 + 2027/8?**
   *Nid oes modd rhannu'r wybodaeth yma – ond gallwn gadarnhau bod y drefn gomisiynu arferol yn parhau ac rydym yn croesawu syniadau yn ol yr arfer.*

5. **Oes rhaglenni 'pen blwydd' wedi'i comisiynu ar gyfer 2026/7/8**
   *Mae'r syniadau isod unai wedi eu comisynu neu dan drafodaeth:*
   *Penblwydd Portmeirion yn 100 oed*
   *Marwolaeth Tom Pryce 50 mlynedd yn ol*
   *Trychineb y Sea Empress – 30 mlynedd yn ol*
   *100 mlynedd ers geni Jan Morris*
   *60 mlynedd ers trychineb Aberfan*
   *60 mlynedd ers carcharu y ferch gyntaf ar ran Cymdeithas yr Iaith*

6. **Pwy yw'r Comisiynydd/wyr yng ngofal y pecyn?**
   *Llinos Wynne yw Comisiynydd y pecyn*

7. **Oes unrhyw arweiniad gan S4C am y mix rhwng cyfresi wedi'u fformatio a dogfennau unigol ar draws yr 14 awr?**
   *Rydym yn agored i drafod unrhyw gyfuniad o gynnwys sydd yn cydfynd a'ch gwelediagaeth greadigol a'ch model cynhyrchu.*

8. **Gall y pecyn ffeithiol gynnwys elfen adloniadol neu fformat hybrid? Er enghraifft, cyfres access neu un sy'n cael ei harwain gan gymeriadau, felly gyda naws ysgafnach ac adloniadol?**
   *Rydym yn agored i ystyried unrhyw syniadau am gynnwys sy'n cydfynd â uchelgais a gweledigaeth y pecyn.*

9. **A fyddai S4C yn agored i gyfres fformat "stripped" i'w ddarlledu ychydig weithiau'r flwyddyn ar llinol, neu gyfuniad sy'n ddigidol yn gyntaf ac wedyn ar llinol?**
   *Rydym yn agored i ystyried unrhyw syniadau am gynnwys sy'n cydfynd â uchelgais a gweledigaeth y pecyn.*

10. **I gadarnhau, a fyddai S4C yn agored i gyd-gynhyrchu neu gynyrchiadau cefn wrth gefn gyda darlledwyr eraill ar gyfer y tendr hwn?**
    *Rydym yn agored i drafod posibiliadau.*

11. **A fydd yn bosib i chi roi ychydig o eglurhad ar yr elfen ddigidol? Os yw 2 awr y flwyddyn ar gyfer Youtube, all rhywfaint o hynny ddod o ddeunydd wedi'i ailolygu neu addasu o'r cynnwys llinol, neu oes disgwyl i'r deunydd fod yn gwbl newydd?**
    *Rydym yn gobeithio bydd y 2 awr ar gyfer Youtube yn gynnwys newydd.*

12. **Oes unrhyw bynciau mae S4C yn teimlo sydd eisoes wedi'u cwmpasu'n eithaf da ac y dylem ni osgoi eu cynnig ar gyfer y pecyn hwn?**
    *Mae rhestr o gomisiynau sydd wedi eu cytundebu ar gael yma:*
    *https://media.cms.v3.s4c.cymru/media/media_assets/9781e027-2491-44db-913d-329f6746af7b.pdf*

13. **A fydd cyfle i gael sgwrs fer gyda'r comisiynwyr cyn cyflwyno'r cais, i wneud yn siŵr ein bod ni ar y trywydd cywir?**
    *Ni fydd hyn yn bosibl.*

14. **A fyddai S4C yn agored i ddarlledu cyfres neu raglen yn gynharach na'r haf pe bai hi'n barod ac yn amserol?**
    *Byddem yn agored i gael y sgwrs gan ystyried oblygiadau ac anghenion yr amserlen.*

15. **Sut mae S4C yn bwriadu gwahaniaethu rhwng y cynnwys digidol a'r cynnwys llinol? Oes cynulleidfaoedd targed gwahanol ar gyfer y ddau?**
    *Ar gyfer Youtube rydym yn chwilio am gynnwys sy'n mynd a ni i fydoedd sydd heb eu gweld ar llinol. Mae angen elfen o syrpreis a ffyrdd newydd o ddweud stori fydd yn apelio at gynulleidfa ieuengach. Gall cynnwys digidol fod yn gynnwys gaiff ei ryddhau yn gynt na darlledu llinol, gall hefyd fod yn gynnwys gyda hyd amrywiol. Gellir amrywio o ran tôn ac arddull.*

16. **Pa hyd neu fformatau o gynnwys digidol mae S4C eisiau i'r ddwy awr o gynnwys digidol gael eu rhannu'n fewn iddo?**
    *Rydym yn agored i ystyried unrhyw syniadau am gynnwys sy'n cydfynd â uchelgais a gweledigaeth y pecyn.*

17. **Oes hyblygrwydd yn y nifer o oriau i'w ddarlledu yn y 2 flynedd neu ydy'r 14 awr yn ffigwr penodol?**
    *Rhaid cyfleu lleiafswm o 14 awr y flwyddyn.*

18. **Gall S4C ymhelaethu ar yr ystyriaethau cynaladwyedd sydd angen cael eu cynnwys yn y cynllun cynhyrchu / elfennau cynnwys yn ei olygu?**
    *Cyfrifoldeb y cwmni yw cynnig elfennau creadigol a chynhyrchu sy'n ymwneud â chynaladwyedd.*

19. **Gall S4C gwarantu ni fydd yn darlledu cynnwys digidol yn unig ar llinol?**

    *Mae hwn yn ddibynnol ar ystyriaethau y pecyn yn ei gyfanrwydd.*

20. **Mae'r tendr yn nodi y bydd y rhaglenni llinol hefyd ar gael ar Youtube (yn fyd eang os yn bosib). Am ba hyd y bydd y rhaglenni ar gael ar Youtube?**
    *Yn ddelfrydol bydd hwn am gyfnod y drwydded – sef 5 mlynedd, ond mae lle i drafod mewn achosion arbennig.*

21. **Mae dymuniad S4C i osod yr holl gynnwys ar Youtube yn golygu y bydd angen efallai cyfyngu ar y defnydd o ddeunydd 3ydd parti a cherddoriaeth. Ydy S4C yn fodlon i gyfaddawdu ar yr elfennau golygyddol hyn er mwyn darlledu ar Youtube?**
    *Mae hwn yn sgwrs fesul achos.*

22. **Bydd S4C yn llifariannu'r £750,000 y flwyddyn neu bydd angen llifarian unigol i bob cyfres?**
    *Bydd y llif arian yn ddibynnol ar strwythyr cynhyrchu'r pecyn.*